

Pa mor effeithiol mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd

Trosolwg

Mae Heddlu De Cymru yn dda am gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae'r heddlu wedi perfformio'n gyson dda yn ein harolygon effeithiolrwydd ac mae ei gynnydd yn gadarnhaol.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth gynhwysfawr o beth yw bod yn agored i niwed ac mae'r gweithlu mewn sefyllfa dda i nodi'r arwyddion sy'n dangos y gall rhywun fod mewn perygl o niwed. Mae'r heddlu'n asesu pob galwad i'w ganolfan gwasanaeth cyhoeddus i nodi'r bygythiadau a'r peryglon y gall galwyr fod yn eu hwynebu, sy'n ei helpu i ymateb yn unol ag anghenion unigol.

Mae Heddlu De Cymru yn ymateb yn dda i ddioddefwyr agored i niwed a chanfuom fod y rhai sy'n delio â galwadau, swyddogion rheng flaen a staff yn gweithredu dull cyson tuag at ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Mae'r heddlu'n gwneud defnydd da o'i bŵer i arestio a darpariaeth gyfreithiol arall er mwyn amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig. Mae hefyd yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael cymorth diogelu. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy i gefnogi'r rhai hynny sy'n profi argyfwng iechyd meddwl pan fônt yn cysylltu â'r heddlu gyntaf.

Mae'r heddlu wedi sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gydag amrywiaeth o sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn Ne Cymru. Er enghraifft, mae staff ambiwlans yn gweithio ochr yn ochr â'r rhai hynny sy'n delio â galwadau'r heddlu i sicrhau bod galwyr yn derbyn gwasanaeth sy'n addas i'w hanghenion. Mae hefyd wedi pennu trefniadau â sefydliadau eraill i sicrhau bod gan bobl sy'n agored i niwed fynediad at arbenigwyr mewn cymorth i ddioddefwyr.

Ar y cyfan, mae'r heddlu'n ymchwilio'n dda i droseddau yn ymwneud â dioddefwyr agored i niwed. Fodd bynnag, canfuom nifer fach o ymholiadau stelcian a thwyll nad oeddent o safon foddhaus; roedd yr heddlu'n ymwybodol ac roedd ganddo gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Mae gan Heddlu De Cymru y trefniadau angenrheidiol ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol ac i ymateb yn effeithiol i ymosodiad sy'n gofyn am ymateb arfog.